# Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

# 29/06/2026

**Presennol:** Gwyn Roberts (Cadeirydd), Eleri Jones (Is-gadeirydd), Clwyd Davies, Tyly Roberts, W D Williams

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Emyr Jones a Geraint Roberts.

2. **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2026 a Chyfarfod 11/5/26.

5. **Materion yn codi:** Ystyriwyd ymateb Parc Cenedlaethol Eryri i ohebiaeth parthed y maes parcio. Cytunwyd i ofyn i Swyddogion y Parc gyfarfod gyda'r Cyngor yn yr Hydref i drafod y cynllun peilot ac i gynllunio at y flwyddyn nesaf. Cytunwyd i wahodd Julian Birley i'r cyfarfod hwnnw.

6. **Cyngor Gwynedd** – Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans. Mae blaenoriaeth yn cael ei roi i adfer wyneb y ffyrdd ac mae Adran y Priffyrdd yn ymateb yn syth i achosion brys, megis wrth Pentre Piod yn ddiweddar. Mae wedi ysgrifennu at yr Adran i ofyn am dorri tyfiant wrth gyffyrdd Llangywer a Rhosygwaliau er mwyn gwella gweledеdd. Oherwydd trafnidiaeth trymach yn ystod yr haf, mae wedi gofyn am doriadau amlach i ochrau ffordd Llangywer.

   Bu llanast parcio eto dros ŵyl y banc a chytunodd y Cyngor bod angen gofyn i'r Heddlu a Wardeiniaid Parcio Cyngor Gwynedd weithredu eu hawliau gorfodaeth. Gofynnwyd am gefnogaeth Parc Cenedlaethol Eryri i hynny hefyd. Nodwyd fod angen mwy eto o arwyddion Clir-ffordd a lori yn llusgo car ar hyd y ffordd

7. **Materion Lleol:** Mae angen canmol y 25 safle parcio ychwanegol a drefnwyd yn y maes parcio a'r uwchraddiad i'r toiledau, ond mae ysbwriel a carthion dynol yn broblemau mawr ar lan y llyn ac mae gwirfoddolwyr yn ei chael hi'n anodd i lanhau ar ôl yr ymwelwyr. Mae sbwriel hefyd yn cael ei stacio yn erbyn wal a thu fewn i'r toiledau, ac mae gwersylla dros nos yn y maes parcio.

   Adroddwyd bod moch gwyllt ac emu yng nghoedwigoedd Rhosygwaliau .

8. **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a gwnaethpwyd cais am wirfoddolwyr i ddreifio'r car cymunedol.

9. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd Cofnodion o'r cyfarfod ardal

10. **Materion Ariannol**: Nodwyd y taliad Debyd Uniongyrchol am y we a derbynneb Zurich

i. Trafodwyd a derbyniwyd Adroddiad yr Archwilydd Mewnol, Cyngor Gwynedd

ii. Ystyriwyd y Ffurflen Flynyddol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol; cytunwyd i'r Cadeirydd arwyddo'r Ffurflen ar ran Cyngor Cymuned Llangywer.

11. **Cronfa Datblygu Digwyddiadau Gwynedd am 2026/2027:** Cadarnhawyd cais Pwyllgor y Neuadd ac mae'r gwaith mewn llaw.

12. **Asedau'r Cyngor**

i. Di-ffib Llangywer a Rhosygwaliau Bydd padiau Rhosygwaliau yn dod i ben diwedd Awst a rhoddodd y Cyngor hawl i Tyly Roberts archebu rhai newydd ac i'r Clerc dalu amdanynt (rhaid talu ymlaen llaw yn yr achos hwn).

ii. Y fynwent: Mae'r bin wedi ei wagio ac mae'r gwair wedi ei dorri.

**13. Ceisiadau cynllunio -** dim

**14. Gohebiaeth**

i. Cyngor Gwynedd: Ardoll Ymwelwyr – trafodwyd a chytunwyd i'r Clerc ateb yr holiadur.

ii. Cyngor Gwynedd: Proffiliau aneddiadau
- Rhosygwaliau: 9 tŷ ond nifer yn wag; cynigodd Tyly Roberts i ystyried y cryfderau a'r gwendidau.
- Llangywer: Cywiriadau -Santes Cywair/ Gwawr yw Santes yr Eglwys; golygfeydd eang (nid ysgubol); 10 tŷ. Cynigodd Clwyd Davies i ystyried y cryfderau a'r gwendidau.

iii. Un Llais Cymru : nodwyd derbyn Newyddlen, Hyfforddiant, a "Beth all eich Cyngor wneud i hybu Bioamrywiaeth".

15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 10/9/26 yn y Neuadd Bentref am 7.30pm